



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cwestiynau Cyffredin

Mesurau Cyson Ôl-16

Mesurau Cyrchfannau

Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cyfres newydd o fesurau perfformiad ar gyfer addysg bellach (AB) a chweched dosbarth ysgolion, sy'n rhoi darlun mwy cyflawn o ddeilliannau dysgwyr yn y sector ôl-16. Y mesurau newydd yw cyflawniad dysgwr, gwerth ychwanegol a chyrchfannau.

Bwriad y Cwestiynau Cyffredin hyn yw helpu colegau AB, chweched dosbarth ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia i ddeall methodoleg y mesurau cyrchfannau newydd, a'u helpu i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau yn ymwneud â data.

Byddwn yn ychwanegu at y cwestiynau hyn wrth i ni barhau i drafod y mesurau newydd gyda'r sector.

Cysylltu

Cangen Ansawdd a Rheoli Data Ôl-16

E-bost: post16quality@llyw.cymru

1	Sut mae'r mesur yn cael ei ddiffinio? Mesur o gyfran y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i addysg bellach (gan gynnwys addysg uwch) a/neu gyflogaeth. Mae cyrchfan dysgwr yn ymwneud â'i weithgaredd yn y flwyddyn academaidd ar ôl i'w rhaglen ddysgu ddod i ben.
2	Pa ddysgwyr sy'n cael eu cynnwys yn y garfan? Mae'r garfan o ddysgwr yn cynnwys pob dysgwr ôl-16 sydd wedi terfynu rhaglen dysgu cymwys yng Nghymru mewn blwyddyn academaidd. Ar gyfer y mesurau cyson ôl-16, rydym ni'n cynnwys dysgwyr mewn chweched dosbarth ysgolion a cholegau addysg bellach, ond nid ydym yn cynnwys dysgu oedolion a gyflwynir gan golegau. Mae'r mesurau yn cynnwys dysgwyr sy'n terfynu rhaglen ddysgu mewn blwyddyn academaidd (1 Awst i 31 Gorffennaf), pa un ai y cofnodwyd bod y rhaglen ddysgu wedi'i 'chwblhau' ai peidio.
3	Beth yw cyflogaeth a gynhelir? Mae'n rhaid i ddysgwyr fod mewn gwaith cyflogedig fel y nodir yn y cofnodion Talu Wrth Ennill (PAYE) am ddiwrnod y mis o leiaf yn ystod pump o'r chwe mis rhwng mis Hydref a Mawrth yn y flwyddyn academaidd ganlynol, neu fod wedi dychwelyd ffurflen hunanasesu sy'n nodi eu bod wedi cael incwm o hunangyflogaeth yn ystod y flwyddyn ariannol honno.
4	Beth yw dysgu a gynhelir? Mae'n rhaid i ddysgwyr fod yn dysgu ar lefel gyfartal neu uwch na'r rhaglen a derfynwyd am ddiwrnod y mis o leiaf yn ystod pob un o'r chwe mis rhwng mis Hydref a Mawrth yn y flwyddyn academaidd ganlynol

5	<p>Pam fod y diffiniad ar gyfer y mesur cyflogaeth a gynhelir yn <i>ddiwrnod y mis yn ystod pump o'r chwe mis</i> a'r dysgu a gynhelir yn <i>ddiwrnod y mis yn ystod pob un o'r chwe mis</i>?</p> <p>Rydym wedi defnyddio'r un diffiniadau ar gyfer cyflogaeth a gynhelir a dysgu a gynhelir â'r Adran Addysg yn Lloegr. Mae'r mesur cyflogaeth a gynhelir yn caniatáu saib o fis mewn cyflogaeth Talu Wrth Ennill i adlewyrchu y gallai fod llai o sefydlogrwydd a diogelwch gyda chyflogaeth nag addysg. Pan fo'r saib yn digwydd ym mis Mawrth, byddir yn edrych ar weithgarwch mis Ebrill i weld a yw'n saib byr neu'n egwyl fwy sylweddol.</p>
6	<p>Beth yw cyrchfan a gynhelir?</p> <p>Dysgwyr sy'n mynd ymlaen i gyrchfan a gynhelir mewn cyflogaeth neu ddysgu (neu'r ddau). Mae hyn yn cynnwys dysgwyr sy'n gwneud unrhyw gyfuniad o gyflogaeth a dysgu, fel swydd ran-amser ochr yn ochr ag astudiaeth amser llawn.</p>
7	<p>Pam fod y gair 'positif' wedi'i ddileu o'r mesur 'cyrchfan positif a gynhelir'?</p> <p>Penderfynwyd dileu'r gair 'positif' oherwydd gallai'r diffiniad hwn anwybyddu'r canlyniadau sy'n bositif i unigolyn, fel gwirfoddoli neu fod yn rhiant, ond ar y llaw arall gallai gofnodi canlyniadau llai ffafriol (fel cyflogaeth ar gontract dim oriau).</p>
8	<p>A yw dysgwyr sy'n terfynu lefel UG neu raglen gyfwerth yn cael eu cynnwys yn y garfan?</p> <p>Ydyn, maen nhw. Os yw'r dysgwr yn mynd ymlaen wedyn i A2 neu raglen gyfwerth yn y flwyddyn ganlynol, bydd yn cael ei gynnwys eto yn y garfan.</p>
9	<p>Os mai rhaglen brentisiaeth yw cyrchfan dysgwr, a fyddai'n cael ei gynnwys yn y ffigurau cyflogaeth a gynhelir neu ddysgu a gynhelir?</p> <p>Byddai'r dysgwr yn cael ei gynnwys yn y ffigurau ar gyfer cyflogaeth a gynhelir a dysgu a gynhelir (os yw'r dysgu ar yr un lefel neu ar lefel uwch). Mae tablau ar wahân ar gyfer: cyflogaeth a gynhelir yn unig; dysgu a gynhelir yn unig; cyflogaeth a dysgu a gynhelir).</p>
10	<p>Os yw dysgwr yn cymryd blwyddyn 'i ffwrdd', a fydd yn cael ei gynnwys yn y ffigurau?</p> <p>Bydd y dysgwr yn cael ei gynnwys, a dangosir nad yw'n mynd ymlaen i gyrchfan a gynhelir. Fodd bynnag, bydd cronni data hydredol dros nifer o flynyddoedd yn darparu cyfleoedd i olrhain llwybrau'r dysgwyr hyn yn well yn y dyfodol.</p>
11	<p>A yw cyflogaeth a gynhelir yn cynnwys gwaith rhan-amser?</p> <p>Ydi. Nid yw'r data sydd gennym ar hyn o bryd yn gwahaniaethu rhwng cyflogaeth amser llawn a rhan-amser, nac yn nodi a yw cyflogaeth yn berthnasol i'r pwnc a astudiwyd.</p>

12	<p>Pa ddata a ddefnyddir i gyfrifo'r mesurau perfformiad?</p> <p>Dyma'r ffynonellau data allweddol a ddefnyddir i gyfrifo'r mesurau perfformiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru: mae'n cynnwys data ar addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu yn y gymuned. Caiff y data ei gasglu yn gyson drwy gydol y flwyddyn a bydd yr ystadegau'n cael eu rhewi'n rheolaidd; • Casglu data ôl-16: bob mis Hydref, mae'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir sy'n cynnwys chweched dosbarth yn ogystal ag ysgolion canol sydd â disgyblion ym mlwyddyn 12, 13 a/neu 14, roi gwybod am yr holl raglenni a gweithgareddau dysgu y mae'r dysgwyr wedi ymgymryd â nhw yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol; • Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch: casgliad blynyddol o amrywiaeth o ddata ledled y DU gan brifysgolion, colegau addysg uwch a darparwyr addysg uwch eraill a ariennir mewn ffyrdd gwahanol; • Data cyflogaeth P45 a P14 (sy'n cael ei gadw gan CThEM): set ddata weinyddol sy'n cynnwys y rhai sy'n talu treth drwy gynllun Talu Wrth Ennill, neu wrth i gyflogwr gyflwyno P45 a P14, neu drwy lenwi ffurflen dreth hunanasesiad.
13	<p>Beth yw'r llinell amser ar gyfer cyhoeddi'r mesurau cyrchfannau?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhagfyr: Data diweddaraf ôl-16 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ar gael • Chwefror: Anfon data at yr Adran Gwaith a Phensiynau i'w cyfateb • Mehefin: Yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dychwelyd y data wedi'i gyfateb • Medi: Cyhoeddi ystadegau cyrchfannau <p>DS. Mae'r garfan yn gorffen addysg ym mis Gorffennaf, ac mae'r cyrchfannau'n cael eu cyhoeddi ym mis Medi ddwy flynedd yn ddiweddarach e.e. mae carfan 2015/16 yn gorffen ym mis Gorffennaf 2016 ac mae'r cyrchfannau'n cael eu cyhoeddi ym mis Medi 2018.</p>
14	<p>Pam ei fod yn cymryd cyn hired i gyhoeddi'r data perfformiad?</p> <p>Bydd y mesur hwn bob amser yn cael ei gyhoeddi ar amserlen wahanol i'r mesurau perfformiad cyson eraill, fel bod y dysgwyr yn cael cyfle i fynd ymlaen i gyrchfan a gynhelir ac i'w data gael ei gasglu, ei gyfateb a'i ddadansoddi.</p>
15	<p>A ellir cymharu'r mesur cyrchfannau â chyrchfannau dysgwyr yn Lloegr?</p> <p>Mae'r Adran Addysg wedi rhyddhau dadansoddiad sy'n cynnwys cyrchfannau dysgwyr AB yn Lloegr; fodd bynnag, oherwydd gwahaniaethau mewn methodoleg a'r ffordd y cesglir data, dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau uniongyrchol â'r ffigurau yn y datganiad hwn. Mae ein datganiad ystadegol ar gyrchfannau'n esbonio'r gwahaniaethau o ran dulliau yn fwy manwl.</p>
16	<p>Sut gallaf i wirio bod y data'n gywir?</p> <p>Nid ydym wedi cynnwys y data ategol lefel dysgwr unigol ar hyn o bryd gan ein bod yn awyddus i gwblhau ein dull gweithredu a'n methodoleg. Byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o gynnwys data ategol wrth gyhoeddi adroddiadau yn y dyfodol.</p>